Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Garth Olwg Day Nursery
# Campws Cymunedol Garth Olwg
# Ffordd Sant Illtyd
# Pentre'r Eglwys
# Pontypridd
# CF38 1RQ

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/05/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Meithrinfa Garth Olwg ar gampws addysg gydol oes ym Mhentre'r Eglwys ger Pontypridd yn Rhondda Cynon Taf. Agorwyd y lleoliad ym mis Chwefror 2006 fel canolfan breifat wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Plant 1989 sy'n cynnig gofal ac addysg dydd llawn i blant hyd at dair oed trwy gyfrwng y Gymraeg. Mudiad Meithrin yw perchennog y feithrinfa ac mae pwyllgor Meithrinfeydd Cymru y Mudiad Meithrin yn ei rheoli. Er hyn, ers Chwefror 2017, mae rheolaeth y safle wedi ei throsglwyddo i ofal yr awdurdod lleol.

Meithrinfa ddydd yw hon ac mae hi ar agor am 51 wythnos y flwyddyn rhwng 7.30 y bore a 6.00 yr hwyr. Cynhelir sesiynau'r dosbarth meithrin rhwng 9.00 ac 11.30 y bore am bum bore'r wythnos yn ystod tymhorau'r ysgol. Adeg yr arolygiad, roedd tua 90 o blant rhwng chwe wythnos a thair oed wedi'u cofrestru i ddefnyddio gwasanaeth y feithrinfa yn ystod yr wythnos.

Ar hyn o bryd, mae naw o blant tair oed yn mynychu'r sesiwn bore. Chwech ohonynt sydd wedi'u hariannu. Daw dau o'r plant hyn o gartrefi lle siaredir Cymraeg, ond Saesneg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf. Ychydig iawn o blant sydd â'r Saesneg yn ail iaith iddynt neu sy'n hanu o gefndir lleiafrifol ethnig. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r dosbarth meithrin.

Y rheolwr a'r dirprwy reolwr sydd â'r cyfrifoldeb am redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Penodwyd y rheolwr i'w swydd yn 2008 a'r dirprwy yn 2016. Cyflogir chwech o ymarferwyr, gan gynnwys y dirprwy reolwr, i weithio gyda'r plant tair blwydd oed ac maent i gyd yn meddu ar gymwysterau priodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Roedd arolygiad diwethaf Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar 13 Ionawr 2015 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn ym mis Mawrth 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- llawer o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ar draws y chwe maes dysgu ac yn cymhwyso eu medrau allweddol yn hwylus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y meysydd hynny
- medrau llythrennedd mwyafrif y plant yn datblygu'n gadarn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- medrau rhifedd llawer o'r plant yn datblygu'n gadarn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- rhan fwyaf y plant yn ymroi'n frwdfrydig i'w gweithgareddau dysgu yn yr ardaloedd gwaith mewnol ac allanol
- bron pob un o'r plant yn gweithio'n annibynnol wrth ymgymryd â thasgau sy'n gyfarwydd iddynt
- bron pob un o'r plant yn gwrtais ac yn barod i aros tro wrth ymgymryd â'u gweithgareddau neu wrth aros i fynd allan neu ddod yn ôl i mewn i'r adeilad ac maent yn ymgymryd â gweithgareddau corfforol iachus yn eiddgar
- y darparwyr yn sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'r gweithgareddau yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan i'r adeilad
- gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymarferwyr o'r cwricwlwm yn gadarn

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rheolwyr yn meddu ar weledigaeth glir ynglŷn â chyfeiriad a gwerthoedd y lleoliad, sy'n cael eu rhannu'n effeithiol gyda gweddill y staff, gan sicrhau rhediad hwylus y lleoliad
- cyfarfodydd rheolaidd y staff yn canolbwyntio'n dda ar faterion cynnydd a lles, ac ar wella'r ddarpariaeth
- yr ymarferwyr i gyd yn rhannu cyfrifoldebau yn llwyddiannus ac mae'r ymdeimlad o dîm yn gryf yn bodoli yno
- y rheolwyr a'r ymarferwyr yn adnabod cryfderau ac anghenion gwella'r lleoliad yn dda iawn
- ganddo hanes llwyddiannus o sicrhau gwelliannau

## Argymhellion

A1 Codi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A2 Sicrhau bod y cynlluniau gwella yn gosod amserlen a chyllideb glir ar gyfer gweithredu'r blaenoriaethau gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ar draws y chwe maes dysgu. Maent yn cymhwyso eu medrau allweddol yn hwylus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y meysydd hynny ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w gweithgareddau dysgu yn yr ardaloedd gwaith mewnol ac allanol. Mae'r mwyafrif yn galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol ac maent yn ymholgar wrth fynd i'r afael â thasgau newydd.

Mae medrau llythrennedd y mwyafrif yn gwbl briodol i'w hoed, gallu a'u cefndir ieithyddol. O fewn y meysydd sy'n gyfarwydd iddynt, gall llawer o'r plant siarad yn hyderus gydag oedolion cyfarwydd, gan ddefnyddio geirfa gynyddol sy'n addas i'r cyd-destun yn gyson. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn eu dilyn yn effeithiol.

Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u cynnwys, ac yn eu trin a'u trafod yn effeithiol fel darllenwyr yn y cornel darllen. Maent yn mwynhau'r ymweliadau â'r llyfrgell gymunedol a leolir ar y campws. Mae'r mwyafrif yn ymateb yn frwdfrydig i storïau gan ateb cwestiynau am y cynnwys yn briodol. Mae'r mwyafrif yn dangos cynnydd da wrth adnabod llythrennau, gan gynnwys llythrennau bras ar ddechrau eu henwau.

Mae bron pob un yn creu marciau yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc, creonau a phensiliau ar draws yr ardaloedd dysgu. Mae ychydig o blant yn dechrau ffurfio llythrennau yn lled gywir.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Gall y rhan fwyaf o blant gyfri i ddeg yn hyderus ac mae'r rhai mwy galluog yn cyfrif i'r degau. Mae bron pob un yn ymuno wrth ganu rhigymau rhif yn hyderus. Mae llawer yn dechrau dod i ddeall diben arian wrth iddynt 'brynu' a 'gwerthu' yng Nghaffi Sali Mali a'r siop Flodau. Mae llawer yn didoli gwrthrychau yn llwyddiannus yn ôl priodweddau penodol, er enghraifft trychfilod sy'n gallu hedfan a'r rhai nad ydynt yn gallu hedfan wrth weithio ar y thema 'Anifeiliaid'.

Mae llawer yn dyfalbarhau yn dda wrth eu gweithgareddau yn ystod cyfnodau dewis rhydd ac yn datrys problemau yn annibynnol, er enghraifft wrth ddarganfod sut i osod cafnau ar gyfer arllwys dŵr o fwced i mewn i gynhwysydd arall. Mae tua hanner y plant yn ddysgwyr ymholgar ac yn barod i fentro a dysgu wrth wneud camgymeriadau ar adegau.

O fewn cyfyngiadau'r offer sydd ar gael iddynt, mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau priodol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn hyderus wrth ddefnyddio til wrth chwarae rôl yn y siop, yn defnyddio camera digidol yn llwyddiannus i dynnu lluniau ac yn mwynhau chwarae gemau ar y cyfrifiadur. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio offer cyfrifiadurol yn ddigon cyson i gyfathrebu syniadau yn llwyddiannus. Mae medrau allweddol y mwyafrif o blant yn datblygu'n dda ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae medrau corfforol y plant bron i gyd yn datblygu'n gadarn. Maent yn ymroi i drin pensiliau, sisyrnau, a brwsys paent yn gynyddol ofalus a chywir, ac yn gyrru ceir a beiciau amrywiol yn hyderus ar hyd llwybr rhwystrau syml yn yr ardal allanol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn dod i'r lleoliad yn hapus ac, ar y cyfan, yn gweithio'n annibynnol wrth ymgymryd â thasgau sy'n gyfarwydd iddynt. Mae'r mwyafrif yn frwdfrydig wrth eu gweithgareddau ac yn dyfalbarhau'n effeithiol â thasgau amrywiol. Mae'r mwyafrif yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn hwylus, er enghraifft wrth helpu i lenwi a gwagio dŵr yn yr ardal allanol neu wrth chwarae rôl yn y caffi neu'r siop. Maent bron i gyd yn cydweithio'n dda ag oedolion cyfarwydd ac yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu. Mae'r plant yn manteisio'n dda ar y cyfleoedd priodol a ddarperir iddynt gyfrannu at gynllunio gweithgareddau ar gychwyn pob thema.

Mae'r plant bron i gyd yn gwrtais ac yn barod i aros tro wrth ymgymryd â'u gweithgareddau neu wrth aros i fynd allan neu ddod yn ôl mewn i'r adeilad. Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif yn rhannu adnoddau yn aeddfed â'i gilydd ynghyd â helpu eraill wrth gerdded ar y llwybr planciau yn yr ardal allanol, er enghraifft.

Mae bron pob un yn cymryd eu tro i olchi eu dwylo yn ofalus cyn amser brecwast neu ginio. Maent hefyd yn deall bod ffrwythau a llysiau yn fwydydd iach ac maent yn gwneud dewisiadau yn annibynnol wrth ofyn am y ffrwythau yr hoffent eu bwyta. Mae'r rhan fwyaf yn gwrtais wrth ei gilydd a chydag oedolion.

Maent yn ymgymryd â gweithgareddau corfforol iachus yn eiddgar wrth chwarae gyda theganau mawr, a chwarae yn yr awyr agored, er enghraifft wrth chwarae gemau parasiwt.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys yn unol â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Maent yn rhoi profiadau diddorol i'r plant arbrofi a darganfod ac, o ganlyniad, mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd da ar draws y meysydd dysgu. Mae'r cynlluniau wythnosol yn nodi'n glir gyfleoedd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau addas ar gael i'r athrawon fedru cynllunio datblygiad TGCh yn ddigon trylwyr.

Mae'r darparwyr yn sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'r gweithgareddau yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae hyn yn eu cynorthwyo'r i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau gwrando a darllen yn llwyddiannus adeg sesiwn stori, ac mae'r ddarpariaeth chwarae rôl yn rhoi profiadau gwerthfawr iddynt ddatblygu eu medrau llafar, ysgrifennu a rhifedd.

Mae cyfleoedd cyson ac amrywiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae trawstoriad da o ymwelwyr yn ymweld â’r lleoliad yn gyson, er enghraifft nyrs, heddwas, a’r fenyw lolipop wrth i’r plant ddysgu am bobl sy’n eu helpu. Mae hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o’r byd o’u cwmpas. Maent hefyd yn trefnu nifer o ymweliadau i’r gymuned sy’n ehangu gwybodaeth y plant o’r byd o’u cwmpas.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymraeg y plant yn effeithiol a llwyddiannus. Mae’r lleoliad hefyd yn darparu cyfleoedd amrywiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth y plant o’r dimensiwn Cymreig. Maent yn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â chymeriadau bywiog fel Sali Mali a Cyw, ac mae’r cymeriadau hyn yn amlwg yn yr ardaloedd dysgu. Rhoddir cyfleoedd hwyliog i blant ddathlu gwyliau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi trwy amrywiaeth o weithgareddau diddorol, er enghraifft mynd i’r siop yn y pentref i brynu llysiau a pharatoi, coginio a bwyta cawl cennin.

**Addysgu: Da**

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymarferwyr o’r cwricwlwm yn gadarn ac maent yn darparu cyfleoedd eang i’r plant ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cydweithio’n agos ac effeithiol â’i gilydd er mwyn rhoi’r ddarpariaeth orau i’r plant.

Mae trefn gweithgareddau dyddiol wedi ei sefydlu’n gadarn ac, o ganlyniad, mae mwyafrif y plant yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol da. Mae’r ymarferwyr yn gyfeillgar ac wedi magu perthynas broffesiynol dda iawn gyda’r plant sydd yn eu gofal. Mae’r holl ymarferwyr yn fodelau iaith da iawn sydd yn golygu bod safonau llafar a geirfa’r plant yn cael eu cyfoethogi. Maent ynholi’n effeithiol ac yn adnabod anghenion y plant yn dda.

Mae’r gweithgareddau ffocws yn gosod yr her briodol ar gyfer plant o bob gallu. Maent yn targedu medrau penodol yn effeithiol, ac yn rhoi cyfleoedd effeithiol ar gyfer disgyblion o bob gallu trwy amrywio’r tasgau yn ôl anghenion y plant.

Mae’r ddarpariaeth barhaus yn yr ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn addas ac amrywiol ac yn cynnig dewis helaeth o weithgareddau i’r plant. Mae’r ymarferwyr yn cyfoethogi’r ddarpariaeth honno’n effeithiol trwy ddarparu tasgau addas i herio’r disgyblion ac sy’n berthnasol i thema gyfredol y dosbarth.

Mae ymarferwyr yn canmol y plant ar lafar am eu hymdrechion yn gyson. Mae hyn yn rhoi hyder a sicrwydd iddynt i roi cynnig ar brofiadau newydd heb boeni am wneud camgymeriad. Mae’r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn ddyddiol ac yn siarad gyda’i gilydd yn gyson am gyflawniadau unigolion. Mae hyn wedi sicrhau bod ganddynt drosolwg manwl o gyrhaeddiad a chynnydd bob plentyn ar draws y chwe maes dysgu. Mae canfyddiadau’r weithdrefn hon yn cael eu rhannu’n dda gyda gweddill y staff, ac yn bwydo’r cynllunio mewn ffordd ymarferol ac effeithiol.

Trwy sgyrsiau anffurfiol, adroddiad blynyddol a chofnod addas o’u gwaith, caiff y rhieni wybodaeth gyflawn am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadaeth gadarn sy’n hyrwyddo hylendid, bwyta’n iach a chadw’n heini yn llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn annog y plant i olchi dwylo cyn

bwyta ac mae amser brecwast a chinio yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu medrau cymdeithasol pwysig fel eistedd wrth y bwrdd a sgwrsio gyda ffrindiau.

Mae darpariaeth effeithiol ar gael i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol a phwysigrwydd ffordd iach o fyw yn yr ardal allanol, er enghraifft pedalu beiciau, dilyn llwybr ar blanciau, a gweithio yn yr ardd. Mae'r profiadau hyn yn datblygu ffitrwydd y plant yn dda, ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ei werthoedd o ofal a pharch yn effeithiol. Mae disgwyliadau uchel gan arweinwyr ac ymarferwyr ynglŷn ag ymddygiad, ac maent yn modelu hyn yn gyson yn eu hymwneud â'r plant ac â'i gilydd. Maent i gyd yn ofalgar iawn o'r plant ac yn eu hannog i ddangos parch at tuag at eraill.

Mae cyfleoedd rheolaidd i blant wneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent ei wneud, ynghyd â gofyn am gymorth pan fo'r angen. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol. Caiff y plant gyfleoedd da i fynychu digwyddiadau diwylliannol gan fanteisio'n dda ar yr adnoddau sydd ar y campws. Er enghraifft, byddant yn ymuno gyda'r disgyblion cynradd pan fydd perfformwyr neu gwmni theatr addas yn gwneud cyflwyniadau.

Er nad oes yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd, mae polisi cyfredol ar gael, a chamau chanllawiau penodol i'w dilyn pe cyfyd yr angen. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau da gyda chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol gynradd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus, groesawgar a chynhwysol lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal a llawn i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau amrywiol. Mae ymarferwyr yn rhoi pwyslais mawr ar ofal a pharch gyda'u holl randdeiliaid. Mae'r ethos Cymreig yn gadarn ac yn rhan naturiol ac annatod o bwrpasau a gweithgareddau'r lleoliad. Trwy ei weithgareddau, mae'r lleoliad yn cynnig dechrau da i'r plant ar eu gyrfa addysgol.

Adeiladwyd y lleoliad yn benodol i ddarparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i blant yr ardal. O ganlyniad, mae'r adeilad a'r amgylchedd dysgu yn arbennig o addas ar gyfer y plant. Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod yr ardaloedd mewnol ac allanol yn hyrwyddo ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn ddeniadol ac yn cynnwys adnoddau pwrpasol i gefnogi'r addysgu. Mae'r arddangosfeydd yn dathlu gwaith y plant ar draws y medrau yn dda ac yn cefnogi'r addysgu yn effeithiol. Mae'r holl adnoddau o safon uchel ac mae unrhyw adnoddau sydd wedi eu paratoi yn atgyfnerthu'r dysgu yn bwrpasol.

Mae hysbysfwrdd yn y fynedfa yn lliwgar ac yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i rieni am ddigwyddiadau'r lleoliad. Mae'n fodd effeithiol o rannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda nhw ac i ddathlu llwyddiannau'r lleoliad gydag eraill. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal leol i atgyfnerthu profiadau'r plant, trwy fynd â nhw ar ymweliad i'r llyfrgell gymunedol sydd ar y campws, a'r siop leol i gefnogi gwaith thema.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y rheolwr, a'i dirprwy, weledigaeth glir ynglŷn â chyfeiriad a gwerthoedd y lleoliad. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda gweddill y staff, gan sicrhau bod ethos y lleoliad yn ei hadlewyrchu'n dda. Mewn amser byr, yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd staff, cydweithiodd yr ymarferwyr i gyd i sefydlu newidiadau yn y ddarpariaeth, gan sicrhau na fu effaith negyddol ar gynnydd a lles plant.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gan amrywiol grwpiau o staff a rheolwyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n dda ar faterion cynnydd a lles, ac ar wella'r ddarpariaeth.

Mae'r ymarferwyr i gyd yn rhannu cyfrifoldebau yn llwyddiannus. Mae'r ymdeimlad o dîm yn gryf yma. O ganlyniad, mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yn gyson llyfn, ac yn sicrhau mai cynnydd plant ar draws y chwe maes dysgu, ynghyd â'u lles, sy'n ganolog i'w weithgarwch.

Mae'r holl bolisïau statudol yn eu lle ac yn weithredol, ac wedi eu rhannu gyda'r ymarferwyr i gyd. Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael sylw da. Er enghraifft, mae pwyslais clir ar ddatblygu arferion bwyta ac yfed yn iach, ac mae mesurau i sicrhau cynnydd ym medrau lythrennedd a rhifedd plant.

Mudiad Meithrin sy'n rheoli'r lleoliad, ac mae'r sefydliad hwnnw'n cefnogi ei waith yn dda, gan ymateb i anghenion y staff fel rhan o'i gyfarfodydd rheolaidd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r rheolwyr a'r ymarferwyr yn adnabod cryfderau ac anghenion gwella'r lleoliad yn dda iawn. Maent i gyd yn arfarnu safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson, ac yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gwelliannau, ac i weithredu ar y blaenoriaethau.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn ymwneud ag amrywiaeth eang o agweddau, gan ganolbwyntio'n briodol ar gynnydd a lles plant. Mae'r cynnwys yn arfarnol ac yn adnabod cryfderau ac anghenion gwella yn llwyddiannus. Mae'r blaenoriaethau gwella'n cael eu nodi'n glir.

Mae cynllun datblygu'r lleoliad yn ddogfen ymarferol sy'n codi'n naturiol o ddeilliannau'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'n canolbwyntio'n briodol ar gyfoethogi'r ddarpariaeth ac ar godi safonau plant. Mae'n gosod targedau clir ar gyfer gwelliant, gan nodi cyfrifoldebau gweithredu, a'r drefn i fonitro a gwerthuso'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer gweithredu a monitro'r blaenoriaethau yn ddigon penodol, ac nid yw cost y gweithredu bob amser yn cael sylw digon manwl.

Mae gan y lleoliad hanes llwyddiannus o sicrhau gwelliannau.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n dda gyda nifer o bartneriaid.  Mae cysylltiadau clir yn bodoli gyda’r rhieni, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu’n gyson naill ai drwy gyfarfodydd ffurfiol neu anffurfiol, neu drwy lythyron.  O ganlyniad, mae gan rieni wybodaeth eglur am waith y cylch a chynnydd eu plant.

Mae cysylltiadau da yn bodoli rhwng y lleoliad â’r ysgol gynradd leol, sydd ar yr un campws.  Mae hyn yn gymorth i baratoi’r plant ar gyfer trosglwyddo yno.  Yn benodol, mae pennaeth Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn cael ei rhyddhau’n wythnosol i weithredu fel athrawes ymgynghorol yn y lleoliad.  O ganlyniad, mae’r plant yn dod i adnabod yr ysgol a’r athrawon yn gynnar, ac mae’r broses o drosglwyddo i’r ysgol gynradd ym mis Medi bob blwyddyn yn cael ei hwyluso.

O ran rheolaeth y safle, mae cydweithio hwylus iawn yn bodoli rhwng rheolwyr y lleoliad a gweddill rheolwyr y campws.  Mae’r bartneriaeth rhwng y lleoliad a’r llyfrgell gyhoeddus, a leolir ar yr un campws, yn un gref.  Mae’r plant i gyd yn aelodau o’r llyfrgell ac yn ymweld â hi’n gyson i fenthyg llyfrau ac i gynnal gweithgareddau darllen.

Mae’r lleoliad yn manteisio ar gefnogaeth yr awdurdod lleol trwy gyfrwng sesiynau hyfforddiant a chefnogaeth ymgynghorol.  Yn yr un modd, maent yn elwa’n dda o arweiniad, rheolaeth ariannol a hyfforddiant y Mudiad Meithrin yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n dda o fewn ei gymuned.  Mae’r gweithgareddau cwricwlaidd yn denu cefnogaeth pobl a gwasanaethau’r ardal, fel yr heddlu a’r fenyw lolipop, a ymwelodd â’r lleoliad yn ystod y thema ‘Pobl sy’n ein helpu’.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff cymwys sy’n cyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol.  Mae’r rheolwyr wedi dyrannu cyfrifoldebau’n glir ac, o ganlyniad, mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yn llyfn.  Mae pob aelod o staff yn manteisio’n briodol ar hyfforddiant mewn meysydd i ddatblygu eu dealltwriaeth a’u gwybodaeth am nifer o feysydd perthnasol.

Mae trefn effeithiol yn bodoli ar gyfer rheoli perfformiad y staff, sy’n cynnwys arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd diweddaru rheolaidd ar hyd y flwyddyn.  Caiff rheoli perfformiad y rheolwr ei arwain gan y Mudiad Meithrin.

Mae gan y lleoliad ystod dda o adnoddau o safon uchel ar y cyfan, sy’n cyfoethogi’r ddarpariaeth a galluogi’r ymarferwyr i ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen.  Mae’r lleoliad yn monitro a gwerthuso’i adnoddau’n gyson ac yn effeithiol wrth adnabod mannau datblygu, er enghraifft i greu cegin fwd newydd yn yr ardal allanol, ac i ddarparu mwy o adnoddau TGCh.

Mae’r Mudiad Meithrin yn ymgymryd â gwaith cyllidebol canolog y lleoliad, fel y cyflogau a chostau’r safle, yn effeithiol.  Mae staff y lleoliad yn weithredol iawn yn trefnu gweithgareddau i godi arian tuag at wella’r ddarpariaeth a sicrhau adnoddau newydd.

O ran y safonau mae’r plant yn eu cyflawni, a’r ddarpariaeth effeithiol, mae’r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |